Urdd

Medi 2018

Annwyl Bennaeth

Taith Urdd Gobaith Cymru i Batagonia 2019

Atodaf gopi o lythyr a ffurflen gais ar gyfer Taith Gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru i Batagonia yn ystod hanner tymor Hydref 2019. Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ers 2008, ac mae'r bobol ifanc sydd wedi mynychu yn y gorffennol wedi cael profiadau bythgofiadwy. Ar ben hynny, rydym ni fel mudiad wedi gweld effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ym Mhatagonia ac ar agwedd y bobl ifanc o Gymru at yr iaith.

Bydd y bobl ifanc yn datblygu sgiliau, yn gwneud ffrindiau gyda siaradwyr Cymraeg ar ochr arall y byd, yn cyflawni gwaith gwirfoddol a chymryd rhan mewn Eisteddfod a llawer mwy!

Bydd swyddogion Urdd Gobaith Cymru o gymorth i'r bobl ifanc godi arian tuag at y daith.

Mae'r cyfle yma yn bennaf ar gyfer disgyblion presennol bl.12, ond os oes gan ddisgyblion bl.13 ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y daith, mae croeso iddynt gyflwyno cais.

Oes modd i chi roi'r taflenni a'r wybodaeth yma i bennaeth bl.12 a 13 er mwyn hysbysu'r disgyblion o'r cyfle hwn?

Os am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi, pennaeth bl.12 a 13 neu'r bobl ifanc gysylltu gyda mi ar y cyfeiriad e-bost isod.

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth

E M Thomas

Eleri Mai Thomas
Rheolwr Gwaith Ieuenctid,
Swyddfa'r Urdd, 14 Lambourne Crescent, Llanisien, Caerdydd. CF14 5GF
elerimai@urdd.org 02922405355